

EICH CYMYNRODD TANIO CREADIGRWYDD YNG NGHYMRU



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE



wmc.org.uk

Rhif Elusen 1060458

NEGES GAN Y RHEOLWR GYFARWYDDWR

Ni yw cartref y celfyddydau yng Nghymru. Ers agor ein drysau yn 2004, rydyn ni wedi cyffwrdd â bywydau miliynau o bobl ledled y wlad a'r tu hwnt drwy hud perfformiadau byw a chyfleoedd creadigol sy'n newid bywydau.

Rydyn ni'n tanio'r dychymyg drwy ein cynrychiadau a'n gwyliau arloesol ein hunain, a thrwy galendr o gynrychiadau teithiol o safon fyd-eang ar Lwyfan Donald Gordon. Rydyn ni'n sicrhau ein bod ni'n gartref i bawb drwy weithio'n agos gyda chymunedau a chreu cyfleoedd i bobl o bob cefndir gael mynediad at ein sioeau a'n gweithgarwch. Rydyn ni hefyd yn helpu i godi dyheadau pobl ifanc Cymru gydag amrywiaeth o brosiectau a hyfforddiant, gan helpu i ddatgloi eu potensial a datblygu sgiliau creadigol sy'n hanfodol ar gyfer llesiant personol, cymdeithasol ac economaidd.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, mae ganddon ni gynlluniau i drawsnewid mwy o fywydau ifanc, datblygu mwy o bartneriaethau cymunedol, a chryfhau ein rôl fel tŷ cynhyrchu, felly mae cefnogaeth ein hymwelwyr a'n cymuned o roddwyr yn bwysicach nag erioed.

Mae gadael rhodd yn eich ewyllys i Ganolfan Mileniwm Cymru yn ffordd arbennig iawn o'n cefnogi a'n helpu i gyflawni'r dymuniadau yma. Mae pob cymynrodd rydyn ni'n ei chael yn cefnogi ein gwaith, gan ein galluogi i wneud mwy a bod yn fwy, ac yn diogelu dyfodol canolfan gelfyddydau genedlaethol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Os ydych chi'n teimlo eich bod wedi cael budd o greadigrwydd a'r celfyddydau, helpwch ni i sicrhau bod gan bawb yng Nghymru fynediad at yr un cyfleoedd.

Diolch am eich ystyriaeth a'ch cefnogaeth.

Mathew Milsom

Rheolwr Gyfarwyddwr





“Rydyn ni wedi bod wrth ein boddau yn ymweld â'r Ganolfan, fel noddwyr a gwirfoddolwyr, ac rydyn ni wedi'n hysbrydoli gan y ffordd mae'r Ganolfan yn ymgysylltu â phobl ifanc Cymru. Rydyn ni'n falch o wybod y bydd ein cymynrodd yn helpu i ysbrydoli creadigrwydd, sgiliau technegol, a hunan-barch, ynghyd â pharhau i ddiddanu”

TEULU JONES, CAERDYDD



SUT BYDD EICH RHODD YN HELPŪ

Mae rhodd yn eich ewyllys yn ffordd ystyrlon o ddatlu eich cariad tuag at Ganolfan Mileniwm Cymru a gwneud cyfraniad hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Gall pob rhodd ym mhob ewyllys – waeth pa mor fawr neu fach – wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Gallwch fod yn hyderus y bydd eich rhodd yn ddiogel yn ein dwylo ni, ac yn cael ei gwario'n ddoeth lle bydd yr angen mwyaf pan fydd yn ein cyrraedd. Bydd eich cymynrodd yn ein galluogi ni i wneud y canlynol:

- **Trawsnewid mwy o fywydau ifanc** drwy ein cynlluniau prentisiaeth a'n rhaglenni dysgu creadigol am ddim, gan roi cyfle i bob person ifanc yng Nghymru ehangu eu gorwelion drwy'r celfyddydau, ar-lein a wyneb yn wyneb.
- **Meithrin creadigrwydd** drwy ddatblygu mwy o'n cynrychiadau cartref ac arloesol gydag artistiaid cenedlaethol newydd
- **Cysylltu gyda mwy o gymunedau i sicrhau ein bod ni'n gartref i bawb**, gan ehangu mynediad at y celfyddydau drwy docynnau cymunedol, perfformiadau hygyrch, a gwaith newydd ar gyfer cynulleidfaedd newydd
- **Ysbrydoli cynulleidfaedd a thanio'r dychmyg** drwy ein cynrychiadau theatr, gwyliau a'n profiadau digidol ein hunain, ynghyd â chynrychiadau teithiol poblogaidd o safon fyd-eang
- **Amddiffyn eich canolfan gelfyddydau genedlaethol a dyfodol y celfyddydau yng Nghymru**, fel bod modd i ni barhau i ddod â llawenydd a chreadigrwydd i fywydau pobl

EIN CYLCH CYMYNRODDION

Os hoffech chi ein cynnwys ni yn eich ewyllys, bydden ni'n falch iawn o gael diolch i chi drwy wahoddiad i ymuno â'n Cylch Cymynroddion.

Bydd ymuno â'r grŵp yn caniatáu i chi ddod yn agosach at yr hyn rydych chi'n ei fwynhau yn ystod eich bywyd drwy ddiweddariadau, digwyddiadau a phrofiadau arbennig:

- **Taith breifat cefn llwyfan (ar ôl cael gwybod am addewid)**
- **Diweddariadau am ein gwaith drwy gylchlythyr ddwywaith y flwyddyn a chopi caled o Adolygiadau Blynyddol**
- **Digwyddiad arbennig Cylch Cymynroddion bob blwyddyn • Recognition on our website**
- **Cydnabyddiaeth ar ein gwefan**

Wrth gwrs, does dim rhaid i chi roi gwybod i ni os ydych chi'n bwriadu gadael cymynrodd i ni. Rydyn ni'n deall yn iawn petai'n well gennych aros yn ddiennw.





CYNNWYS NI YN EICH EWYLLYS

Os byddwch yn penderfynu gadael rhodd i Ganolfan Mileniwm Cymru, bydd angen i chi ddewis rhwng rhodd weddilliol a rhodd ariannol.

Mae **rhodd weddilliol** yn golygu cyfran o'ch ystâd ar ôl darparu ar gyfer eich teulu a'ch ffrindiau. Mantais y math hwn o rodd yw ei fod yn cadw ei werth dros amser, gan na fydd chwyddiant yn effeithio arno.

Swm penodol o arian yw **rhodd ariannol**.

Efallai y bydd y geiriad canlynol yn ddefnyddiol i chi ei roi i'ch cyfreithiwr:

'Rwy'n gadael X% o fy ystâd weddilliol / swm o £X i Ganolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd, CF10 5AL (rhif elusen gofrestrdig 1060458), i'w ddefnyddio at ddibenion cyffredinol Canolfan Mileniwm Cymru ac rwy'n datgan y bydd derbynneb y Cyfarwyddwr neu swyddog awdurdodedig arall y Ganolfan yn rhyddhad digonol i'm Hysgutor(ion).'

Bydd ein geiriad awgrymedig yn golygu y bydd eich rhodd yn cael ei rhoi ble mae'r angen mwyaf pan fydd yn ein cyrraedd. Serch hynny, rydyn ni hefyd yn deall efallai y byddwch yn dymuno i'ch rhodd gefnogi maes penodol o'n gwaith. Os hoffech drafod hyn ymhellach, cysylltwch â ni drwy'r manylion ar y ffurflen addewid trosodd.

Mae'r llyfryn yma wedi'i gynllunio i ddarparu gwybodaeth gyffredinol am adael cymynrodd i Ganolfan Mileniwm Cymru. Rydyn ni'n argymhell yn gryf eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol proffesiynol wrth lunio eich ewyllys. Gallwch ddod o hyd i gyfreithiwr cymwysedig yn eich ardal leol drwy ddefnyddio gwefan Cymdeithas y Cyfreithwyr.

FFURFLEN ADDEWID CYMYNRODD

Os ydych chi wedi penderfynu gadael rhodd i Ganolfan Mileniwm Cymru yn eich ewyllys, bydden ni'n falch iawn o gael gwybod er mwyn gallu diolch i chi. Dydy'r wybodaeth yma ddim yn rhwymedig yn gyfreithiol, ac ymdrinnir â'r holl wybodaeth yn gwbl gyfrinachol.

Enw:

Cyfeiriad:

Cod post:

Dewiswch bob un sy'n berthnasol:

- Rydw i wedi cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru yn fy ewyllys
- Rydw i'n bwriadu cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru yn fy ewyllys
- Hoffwn siarad â rhywun yn y Tîm Datblygu am roi cymynrodd

Dychwelwch at:

Cyfarwyddwr Datblygu a Phartneriaethau,
Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd, CF10 5AL

Neu ebostiwch y wybodaeth hon at: cefnogwyr@wmc.org.uk

Diolch am eich ystyriaeth a'ch cefnogaeth.

